SWANSEA MARKET
MARCHNAD ABERTAWE





Be part of

# Swansea Market

New Business & Trading Opportunities






Byddwch yn rhan o

# Farchnad Abertawe

Cyfleoedd Busnes a Masnachu Newydd

Cyngor Abertawe
Swansea Council

# Contents

# Cynnwys


| Contents | Page | Cynnwys |
| --- | --- | --- |
| Introduction | 3 | Cyflwyniad |
| Location & Investment | 4 | Lleoliad a Buddsoddi |
| Awards & Recommendations | 5 | Gwobrau ac Argymhellion |
| Accessibility & Footfall | 6 | Hygyrchedd a Nifer yr Ymwelwyr |
| Marketing & Events | 7 | Marchnata a Digwyddiadau |
| Operational Support | 8 | Cefnogaeth Weithredol |
| Permanent Trading Opportunities | 9 | Masnachu Parhaol Cyfleoedd |
| Casual Trading & Other Opportunities | 11 | Masnachu Achlysurol a Chyfleoedd Eraill |
| Key Benefits & Contact Details | 12 | Manteision Allweddol a Manylion Cyswllt |

## Thinking about starting a new business?

## Looking to test a great idea?

## Want a retail outlet?

Swansea Market offers fantastic opportunities, come rain or shine, that include guaranteed footfall and flexible terms.

Read on for more information or visit

[swanseaindoormarket.co.uk](swanseaindoormarket.co.uk)

## Ydych chi'n meddwl am ddechrau busnes newydd?

## Hoffech chi brofi syniad newydd?

## Ydych chi'n chwilio am uned fanwerthu?

Mae Marchnad Abertawe'n cynnig cyfleoedd gwych, boed law neu hindda, sy'n cynnwys nifer pendant o ymwelwyr a thelerau hyblyg. I gael mwy o wybodaeth, darllenwch fwy neu ewch i

[marchnadabertawe.co.uk](marchnadabertawe.co.uk)













## Swansea Market the retail heart of the City Centre

Swansea is the regional centre for south-west Wales and Wales' largest indoor market is located at the heart of its City Centre which is on the cusp of multi-million pound regeneration.

For centuries, the market tradition in Swansea has been strong. Established and new traders alike ensure Swansea Market continues to serve the needs of customers now and into the future and Swansea Council, which owns and operates the Market, is fully committed to its long term vitality.

## Marchnad Abertawe calon fanwerthu canol y ddinas

Abertawe yw'r ganolfan ranbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru ac mae marchnad dan do fwyaf Cymru yng nghanol y ddinas hon sydd ar fin cael gwaith adfywio gwerth miliynau o bunnoedd. Mae Abertawe wedi cael traddodiad cryf o gynnal marchnadoedd ers canrifoedd.

Mae masnachwyr sefydlog a newydd fel ei gilydd yn sicrhau bod Marchnad Abertawe'n parhau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid, nawr ac yn y dyfodol ac mae Cyngor Abertawe, sy'n berchen ar y farchnad ac yn ei gweithredu, wedi ymrwymo'n llwyr i'w bywiogrwydd tymor hir.



# Join an award winning market!

Over 100 traders offer a vast array of goods, services and expertise. The popularity and quality of the Swansea Market offer has been recognised over the years with various accolades, including:

- National Association of British Market Authorities (NABMA) – Best Large Indoor Market 2015
- Trip Advisor Certificate of Excellence
- Multiple 'Swansea Life' Awards

# Ymunwch â marchnad arobryn!

Mae dros 100 o fasnachwyr yn cynnig ystod eang o nwyddau, gwasanaethau ac arbenigedd. Mae poblogrwydd a safon Marchnad Abertawe wedi cael eu cydnabod dros y blynyddoedd gyda gwobrau amrywiol, gan gynnwys:

- Cymdeithas Genedlaethol Awdurdodau Marchnadoedd Prydain (NABMA) – Marchnad Dan Do Fawr Orau 2015
- Tystysgrif Rhagoriaeth Trip
- Gwobrau 'Swansea Life' Amrywiol

### *Great market*

"I loved this market, an excellent choice of stalls from make up to food to sweets to clothing. It's inside as well so is suitable for all weathers."

**(May 2017 - Tripadvisor)**

### *Marchnad wych*

"Rwy'n dwlu ar y farchnad hon, mae ganddi ddewis rhagorol o stondinau gan gynnwys colur, bwyd, melysion a dillad. Gan ei bod hi dan do hefyd, mae'n addas ar gyfer pob tywydd."

**(Mai 2017 - Tripadvisor)**

### *Great place*

"Swansea market is the heart of Swansea. Young or old you will always find yourself here for something. They offer such a range of produce. The stall holders are friendly and the atmosphere is always vibrant.

**(Feb 2017 - TripAdvisor)**

### *Lle gwych*

"Marchnad Abertawe yw canolbwynt canol dinas Abertawe. Ni waeth os rydych yn hen neu'n ifanc, byddwch yn chwilio am rywbeth yma bob amser. Maent yn cynnig amrywiaeth o gynnyrch. Mae'r masnachwyr yn gyfeillgar ac mae'r awyrgylch bob amser yn fywiog. **(Chwefror 2017 - TripAdvisor)**







# Central & easy to find!

- Swansea Market enjoys an average footfall of 80,000 visitors per week which grows at Christmas and during major events.
- Its diverse offer means it attracts a range of customers, including the expanding student population.
- Its central location and four entrances all at ground level, means it's easily accessible.
- Multiple car parks are located nearby and direct undercover access is available via Swansea Bus Station and the Quadrant Shopping Centre.

# Yng nghanol y ddinas ac yn hawdd ei chyrraedd!

- Mae 80,000 o ymwelwyr ar gyfartaledd yn dod i Farchnad Abertawe bob wythnos
- ac mae'r nifer hwn yn tyfu amser y Nadolig ac yn ystod digwyddiadau mawr.
- Mae ei hamrywiaeth o gynnyrch yn denu cwsmeriaid gwahanol, gan gynnwys nifer cynyddol o fyfyrwyr.
- Mae'n hygyrch oherwydd ei lleoliad canolog a'i phedair mynedfa ar y llawr gwaelod.
- Mae meysydd parcio gerllaw a gallwch gerdded i'r farchnad drwy
- Orsaf Fysus Abertawe a Chanolfan Siopa'r Cwadrant gan aros dan do.







# First class marketing

An annual multi-media marketing, events and promotions programme is delivered by Swansea Council working with the traders.

Digital audio, radio, press, social media, tours and competitions are among the wide range of platforms that are used. Traders also benefit from a dedicated page on the Market website and use of the Market's popular social media channels for promotion.

# Marchnata o'r radd flaenaf

Cyflwynir rhaglen marchnata, digwyddiadau a hyrwyddiadau amlgyfrwng flynyddol gan Gyngor Abertawe ar y cyd â'r masnachwyr.

Defnyddir ystod eang o lwyfannau gan gynnwys sain, radio, y wasg, cyfryngau cymdeithasol, teithiau a chystadlaethau. Mae masnachwyr hefyd yn elwa o dudalen ddynodedig ar wefan y farchnad ac yn gallu defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol poblogaidd y farchnad at ddibenion hyrwyddo.

# On-site support

All new traders are provided with essential information about the operation of the Market and the support provided by the on-site team.

The Market Supervisor or Market Inspector are available for any queries and a team of Market Attendants ensure the Market is safe and attractive.

A designated security guard patrols the Market daily and a state of the art CCTV system provides additional reassurance.

The Swansea branch of the National Market Traders' Federation is very active offering membership, advice and support.

# Cefnogaeth ar y safle

Darperir gwybodaeth hanfodol am weithrediad y farchnad a'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu
gan y tîm ar y safle i fasnachwyr newydd.

Bydd Goruchwyliwr y Farchnad neu Arolygydd y Farchnad ar gael i chi ei holi a bydd tîm o gynorthwywyr yn sicrhau bod y farchnad yn ddiogel ac yn ddeniadol.

Mae gwarchodwr diogelwch dynodedig yn patrolio'r farchnad yn ddyddiol ac mae system teledu cylch cyfyng o'r radd flaenaf yn darparu sicrwydd ychwanegol.

Mae cangen Abertawe o Ffederasiwn Masnachwyr Marchnadoedd Cenedlaethol yn cynnig aelodaeth, cyngor a chefnogaeth.

"Come and join the biggest market in Wales with over 100 stalls selling a wide range of produce - it truly is a SUPER-Market!"

(Chris Evans, Chair - Swansea Market Traders' Federation)

"Dewch i ymuno â marchnad fwyaf Cymru lle bydd dros 100 o stondinau'n gwerthu amrywiaeth eang o gynnyrch - mae wir yn farchnad o fri!"

(Chris Evans, Cadeirydd Ffederasiwn Masnachwyr Marchnad Abertawe)




## Great business opportunities

Occupancy levels are generally very high but opportunities for new businesses do arise and available units are advertised at

[swanseaindoormarket.co.uk](swanseaindoormarket.co.uk)

These units offer a low risk venture with all the benefits of an established, high footfall retail environment and on-site support. Swansea Council is especially interested in unique business ideas that complement the existing Market offer and help attract a new audience.

## Rental options

There are short and long-term options that can be negotiated, ensuring both flexibility and security.

## Cyfleoedd busnes gwych

Mae lefelau deiliadaeth yn uchel yn gyffredinol ond bydd cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd ar adegau a hysbysebir unedau sydd ar gael yn

[marchnadabertawe.co.uk](marchnadabertawe.co.uk)

Mae'r unedau hyn yn cynnig menter risg isel gyda holl fanteision amgylchedd manwerthu sydd â nifer mawr o ymwelwyr ynghyd â chefnogaeth ar y safle. Mae gan Gyngor Abertawe ddiddordeb mawr mewn syniadau busnes unigryw sy'n addas ar gyfer y farchnad sydd eisoes yn bodoli ac sy'n denu cynulleidfa newydd.

## Opsiynau rhentu

Mae opsiynau tymor hir a thymor byr y gellir eu cyd-drafod, gan sicrhau hyblygrwydd a diogelwch.

# Application process

The application process for a vacant unit is straightforward and usually takes around 6 weeks.* It is subject to an application fee but no other charges are payable.

# Rent free period

A rent free period of up to 4 weeks is available allowing new businesses to set up their stall ready for trading.

# Stall fittings

Vacant stalls are available as a basic unit with power and electrical sockets. Tenants may install their own fixtures and fittings.

# Rental charges

Advertised rental rates include water rates and service charges and incentives for start-up businesses may be available.

*subject to consultation

# Proses ymgeisio

Mae'r broses ymgeisio ar gyfer uned wag yn syml ac mae'n cymryd tua chwe wythnos i'w chwblhau.* Mae'n rhaid talu ffi am gyflwyno cais ond ni chodir costau eraill.



# Cyfnod di-rent

Bydd cyfnod di-rent hyd at bedair wythnos ar gael a fydd yn galluogi busnesau newydd i osod eu stondinau fel eu bod yn barod i fasnachu.

# Gosodiadau stondin

Mae stondinau ar gael fel unedau sylfaenol â socedi pŵer a thrydanol. Gall tenantiaid osod eu gosodiadau a'u ffitiadau eu hunain.

# Costau rhentu

Mae costau rhentu a hysbysebir yn cynnwys trethi dŵr a chostau gwasanaeth a cheir ysgogiadau ar gyfer busnesau newydd.

*yn destun ymgynghoriad






## Prefer to trade on a more casual basis?

If a casual trading model is preferred or as a first step towards taking on a full time stall, there are casual trading opportunities at the centre of the Market. These are available daily at reasonable rates. Niche and craft trades are preferred. Further details can be found at swanseaindoormarket.co.uk

## Meanwhile opportunities

Alternative non-trading opportunities for events, activities, promotions and exhibitions are available. Use of the central area and/or vacant units can be arranged on request.

## Byddai'n well gennych fasnachu ar sail achlysurol?

Os yw model masnachu achlysurol yn well gennych, neu fel cam cyntaf tuag at fasnachu ar stondin llawn amser, mae cyfleoedd masnachu achlysurol yng nghanol y farchnad. Mae'r rhain ar gael yn ddyddiol am gost resymol. Masnachau crefft ac arbenigol sydd orau. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion yn marchnadabertawe.co.uk

## Cyfleoedd yn y cyfamser

Mae cyfleoedd amgen nad ydynt yn gysylltiedig â masnachu ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau, hyrwyddiadau ac arddangosfeydd ar gael. Gellir trefnu defnyddio'r ardal ganolog a/neu unedau gwag ar gais.




## Find out more

If you'd like to be part of Swansea Market contact City Centre Management on ☎ **01792 633090**
**citycentremanagement@swansea.gov.uk**

## Darganfod mwy

Os hoffech fod yn rhan o Farchnad Abertawe, ffoniwch Tîm Rheolaeth Canol y Ddinas ar ☎ **01792 633090**
**citycentremanagement@swansea.gov.uk**

## Key benefits

- Central city centre location
- Indoor venue
- High footfall
- Low risk opportunity
- Award winning market
- Marketing and promotions
- Operational support
- Financial incentives
- Flexible rental terms

## Manteision allweddol

- Lleoliad canolog yng nghanol y ddinas
- Lleoliad dan do
- Nifer mawr o ymwelwyr
- Cyfle risg isel
- Marchnad arobryn
- Marchnata a hyrwyddiadau
- Cefnogaeth weithredol
- Ysgogiadau ariannol
- Telerau rhentu hyblyg

**@swanseamarket**
**@marchnadaber**

**swanseamarket**

**@swanseamrkt**
**@marchnad_abertawe**

**swanseaindoormarket.co.uk**
**marchnadabertawe.co.uk**